

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

**Crynodeb y Bil,
Y Bil Trais ar sail Rhywedd,
Cam-drin Domestig a
Thrais Rhywiol (Cymru)**

Awst 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/1316
Rhif dogfen:14/039

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

**Crynodeb y Bil,
Y Bil Trais ar sail Rhywedd,
Cam-drin Domestig a
Thrais Rhywiol (Cymru)**

Awst 2014

Hannah Johnson, Gareth Thomas,
Stephen Boyce

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Y Bil.....	3
2.1.	Cyflwyniad	3
2.2.	Strategaeth genedlaethol.....	3
2.3.	Strategaethau lleol	3
2.4.	Mesur perfformiad	3
2.5.	Canllawiau a chyfarwyddiadau	4
2.6.	Cynghorydd Gweinidogol	4
2.7.	Diffiniadau a darpariaethau eraill.....	5
3.	Goblygiadau ariannol y Bil.....	7
4.	Ymateb i'r Bil.....	8

Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

1. Cyflwyniad

Dyddiad cyflwyno: 30 Mehefin 2014

Yr Aelod sy'n gyfrifol: Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Pwyllgor y Cynulliad sy'n cynnal gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1 o'r Bil: Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1: 14 Tachwedd 2014

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil hwn. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y Bil yng Nghyfnod 1 a chynhaliodd ei sesiwn dystiolaeth gyntaf ar 17 Gorffennaf 2014. Bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn ystod Cyfnod 1 erbyn 14 Tachwedd 2014. Dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 6 Chwefror 2015, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth, sy'n cau ar 5 Medi 2014.

Gwnaeth y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn**¹ ar 1 Gorffennaf 2014.

Nod y Bil yw cryfhau ymateb cyrff yn y sector cyhoeddus i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol o ran atal, diogelu a chymorth i'r rhai yr effeithiwyd arnynt. Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i lunio strategaethau ar gyfer rhoi terfyn ar drais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut y dylent arfer eu swyddogaethau er mwyn cyflawni'r nod hwn. Mae'r Bil hefyd yn caniatáu ar gyfer penodi Cynghorydd Gweinidogol.

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion y Cyfarfod Llawn [*Datganiad: Cyflwyno'r Bil Cam-drin Domestig, Trais ar Sail Rhywedd a Thrais Rhywiol \(Cymru\)*](#) 1 Gorffennaf 2014

Felly, mae **pedair elfen i'r Bil**:

- dyletswydd i baratoi strategaethau cenedlaethol a chyflwyno adroddiad arnynt;
- dyletswydd i baratoi strategaethau lleol a chyflwyno adroddiad arnynt;
- pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol a dyletswydd i ddilyn canllawiau o'r fath;
- penodi cynghorydd gweinidogol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Rhwng mis Tachwedd 2012 a Chwefror 2013, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgyngoriad**² ar ddeddfwriaeth i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Cyhoeddwyd crynodeb³ o'r 147 o ymatebion unigol ym mis Medi 2013.

Hefyd, comisiynodd Llywodraeth Cymru **Grŵp Gorchwyl a Gorffen** i lunio adroddiad⁴ fel sail ar gyfer cynnwys y Bil a'r gwaith o'i gyflwyno a'i orfodi, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2012. Hefyd, cyhoeddwyd **adolygiad annibynnol**⁵ o wasanaethau ym mis Ebrill 2014.

Nid yw pob un o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgyngoriad neu'r argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'u cynnwys yn y Bil, gan fod rhai ohonynt wedi'u gwneud drwy ddulliau eraill. Ymysg y rhain mae'r cynigion yn ymwneud ag addysg perthnasau iach, polisiâu mewn gweithleoedd a llety diogel. Mae teitl y Bil a rhai o'r diffiniadau a ddefnyddir ynddo hefyd yn wahanol i'r rhai sydd yn y Papur Gwyn.

² Llywodraeth Cymru, [*Ymgyngoriad Papur Gwyn ar ddeddfwriaeth i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestiga thrais rhywiol \(Cymru\)*](#) Rhif: WG17102, 26 Tachwedd 2012

³ Llywodraeth Cymru, [*Papur Gwyn - crynodeb o ymatebion Ymgyngoriad ar ddeddfwriaeth i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestiga thrais rhywiol \(Cymru\)*](#) Rhif: WG 19614, Medi 2013

⁴ Llywodraeth Cymru, [*'Bil Diwedd ar Drais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig \(Cymru\)' arfaethedig Llywodraeth Cymru: Argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen*](#), 24 Awst 2012

⁵ Llywodraeth Cymru, [*Adeiladu Ymatebion Effeithiol: Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru*](#), 2014

2. Y Bil

Mae'r Bil yn cynnwys 23 Adran, sydd wedi'u crynhoi isod.

2.1. *Cyflwyniad*

Adran 1 Mae'n amlinellu diben y Bil, sef gwella'r trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, amddiffyn dioddefwyr a rhoi cymorth i'r bobl yr effeithir arnynt.

2.2. *Strategaeth genedlaethol*

Adran 2 Mae'n gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi, adolygu a gweithredu strategaeth genedlaethol, sy'n nodi amcanion, amserlenni a chamau gweithredu arfaethedig a fydd yn cyfrannu at ddiben y Bil.

Adran 3 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a bennir yn y strategaeth genedlaethol.

2.3. *Strategaethau lleol*

Adrannau 4-5 Maent yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaethau lleol ar y cyd. Mae'r rhain yn pennu amcanion, amserlenni a chamau gweithredu arfaethedig a fydd yn cyfrannu at ddiben y Bil.

Gall strategaeth leol hefyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdod cyhoeddus neu sefydliad gwirfoddol sydd â gweithgareddau y mae modd iddynt gyfrannu at ddiben y Bil, gymryd camau penodol, gyda chymeradwyaeth y corff.

Adran 6 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol ystyried y strategaeth genedlaethol yn ogystal â'r asesiadau mwyaf diweddar o anghenion gofal, trosedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu yn ardal yr awdurdod lleol, wrth baratoi ac adolygu strategaethau lleol.

Adran 7 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion yn y strategaeth leol.

2.4. *Mesur perfformiad*

Adrannau 8-9 Maent yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi dangosyddion ac adroddiadau blynyddol i fesur y cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf.

Maent yn ei gwneud yn ofynnol y gellir mesur dangosydd cenedlaethol yn erbyn canlyniad penodol ac y gellir ei fesur dros gyfnod o amser. Cyn cyhoeddi'r dangosyddion, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r bobl briodol.

Adran 10 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion yn y strategaeth leol.

2.5. Canllawiau a chyfarwyddiadau

Adran 11 Mae'n rhoi diffiniad o 'awdurdod perthnasol' fel awdurdod lleol, bwrdd iechyd, awdurdod tân ac achub neu un o ymddiriedolaethau'r GIG.

Adran 12 Mae'n gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r awdurdod perthnasol ar sut y dylai'r awdurdod gyfrannu at ddiben y Bil.

Gallai'r canllawiau statudol fynd i'r afael â'r canlynol:

- y camau y caiff awdurdod eu cymryd i gynyddu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- yr amgylchiadau pan fo'n briodol i staff yr awdurdod perthnasol holi person a yw'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig neu drais rhywiol, neu mewn perygl o'u dioddef, a'r camau sy'n briodol i'w cymryd (i 'holi' a 'gweithredu');
- hyfforddiant i aelodau o staff awdurdod perthnasol;
- rhannu gwybodaeth gan (a rhwng) yr awdurdodau perthnasol;
- cydweithredu rhwng yr awdurdodau perthnasol.

Adran 13 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r bobl briodol cyn dyroddi canllawiau a gosod copi o'r canllawiau hynny gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 14 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau perthnasol ddilyn canllawiau statudol, oni bai fod yr awdurdod yn ystyried bod rheswm da dros beidio â dilyn y canllawiau a'i fod yn penderfynu ar bolisi amgen.

Adran 15 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad polisi nodi sut y mae'r awdurdod perthnasol yn cynnig y bydd ei bolisi amgen yn gweithio a'i resymau dros fabwysiadu'r polisi amgen.

Adran 16 Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw polisi amgen yr awdurdod perthnasol yn debygol o gyfrannu at ddiben y Bil, gallant ddweud wrtho am gymryd camau priodol yn lle hynny. Rhaid i'r awdurdod perthnasol gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwn.

2.6. Cynghorydd Gweinidogol

Adran 17 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi Cynghorydd Gweinidogol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Adran 18 Mae'n amlinellu swyddogaethau'r Cynghorydd, sef:

- darparu cyngor a chynhorthwy i Weinidogion Cymru;
- cynnal gwaith ymchwil;
- darparu cyngor a chynhorthwy i bobl eraill, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru;
- cynhyrchu adroddiadau.

Adrannau 19-20 Maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynghorydd baratoi a chyhoeddi cynllun blynyddol sy'n pennu'r amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cynghorydd gynhyrchu adroddiad blynyddol ar arfer eu swyddogaethau'n ystod y flwyddyn.

2.7. Diffiniadau a darpariaethau eraill

Adran 21 Mae'n rhoi diffiniadau o (ymhlith eraill):

- "cam-drin" - cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol;
- "cam-drin domestig" - cam-drin a ddaw o du person sy'n gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r dioddefwr;
- "trais ar sail rhywedd" - (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol; (b) anffurfio organau cenhedlu benywod; (c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio);
- "trais rhywiol" - camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygythiadau o drais o natur rywiol;
- "anffurfio organau cenhedlu benywod" - gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003;
- "cam-drin ariannol" - (a) bod arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn; (b) bod person yn cael ei dwyllo; (c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall, ac (ch) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;

- “aflonyddu” - llwybr ymddygiad gan berson y mae'n gwybod, neu y dylai wybod, ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu ar y llall; - (a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu, neu'n cynnwys aflonyddu, pe bai person rhesymol sy'n meddu ar yr un wybodaeth o'r farn bod y llwybr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu ar berson arall, neu'n cynnwys aflonyddu ar berson arall, a (b) mae “ymddygiad” yn cynnwys siarad;
- “camfanteisio rhywiol” - rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson - (a) sy'n cynnwys cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42), fel y mae'n cael effaith yng Nghymru a Lloegr; neu (b) a fyddai'n cynnwys cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr.

3. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'n cynnig y tri opsiwn i'w hystyried ar gyfer pob un o elfennau'r Bil, ynghyd â chostau pob opsiwn ac asesiad o i ba raddau y mae'n cyflawni nodau'r Bil.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn trafod buddion y Bil, ond nid yw'n gallu eu mesur. Mae'n nodi, gan nad oes modd pennu effaith y cynigion yn y Bil ar nifer yr achosion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, nid oes modd rhoi gwerth ar fuddion y Bil.

Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r costau ychwanegol a godir o ganlyniad i weithredu'r ddeddfwriaeth. Costau uniongyrchol y ddeddfwriaeth rhwng 2014-15 a 2017-18 yw £1.6 miliwn, y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am £1.4 miliwn ohono, gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am y £0.2 miliwn sy'n weddill. Mae'r £5.6 miliwn sy'n weddill yn y tabl yn ymwneud â'r costau cyfleoedd sy'n gysylltiedig â staff y sector cyhoeddus yn cael hyfforddiant, ac nid yw'n cynrychioli gwariant ariannol uniongyrchol gan unrhyw sefydliad.

Tabl 1: Tabl crynodeb o gostau ychwanegol y ddeddfwriaeth, 2014-15 i 2017-18

Elfen	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Cyfanswm
Costau uniongyrchol					
Llunio a chyflwyno adroddiadau ar y strategaeth genedlaethol	0	117,600	106,500	106,500	330,600
Llunio a chyflwyno adroddiadau ar y strategaethau lleol	0	0	182,600	36,300	218,900
Cyhoeddi canllawiau statudol a'r ddyletswydd i'w dilyn	106,300	173,000	280,700	260,700	820,700
Penodi Cynghorydd Gweinidogol	0	92,500	81,500	81,500	255,500
Cyfanswm y costau uniongyrchol	106,300	383,100	651,300	485,000	1,625,700
Costau cyfle					
Cyhoeddi canllawiau statudol a'r ddyletswydd i'w dilyn	1,996,100	1,147,800	1,233,600	1,233,600	5,611,100
Cyfanswm y costau cyfle	1,996,100	1,147,800	1,233,600	1,233,600	5,611,100
Cyfanswm y costau	2,102,400	1,530,900	1,884,900	1,718,600	7,236,800

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Memorandwm Esboniadol - Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#)

4. Ymateb i'r Bil

Mewn **dadl yn y Cyfarfod Llawn** ar 1 Gorffennaf 2014⁶ nododd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, ddiben y Bil.

Roedd **Mark Isherwood AC**, Gweinidog yr Wrthblaid ar Lywodraeth Leol, Cyfiawnder Cymdeithasol, Tai a Gogledd Cymru, yn credu bod y Bil yn niwtral o ran rhywedd, a oedd yn achos pryder o ystyried y dystiolaeth bod gan ddynion a menywod sy'n dioddef cam-drin domestig anghenion gwahanol a bod angen mathau gwahanol o wasanaethau arnynt. Roedd hefyd yn pryderu am wella mynediad at wasanaethau a gweithio ar draws ffiniau ac ar draws sectorau, o ystyried nifer y darparwyr gwasanaeth annibynnol a thrydydd sector.

Nododd y **Gweinidog** bod y Bil yn benodol o ran rhywedd oherwydd ei fod yn galluogi ymatebion yn benodol ar gyfer rhywedd lle bo angen. Cydnabu bwysigrwydd y materion traws-ffiniol a thraws-sector a nododd y bydd adran 12 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol a fyddai'n cwmpasu'r gwaith o rannu gwybodaeth yn ddiogel.

Holodd **Jocelyn Davies AC**, ar ran Plaid Cymru, a oedd y Bil yn adlewyrchu effaith anghyfartal trais domestig ar fenywod. Roedd yn pryderu am ddiffyg darpariaethau addysg yn y Bil a'r canlyniadau posibl ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal trais domestig. Gofynnodd i'r Gweinidog sut fydd y Llywodraeth yn sicrhau y bydd strategaethau awdurdodau lleol a byrddau iechyd, sy'n ofynnol gan y Bil, yn cynnwys darpariaethau i bobl sydd yn gaeth mewn patrymau o erledigaeth dro ar ôl tro a'r menywod hynny sy'n profi cam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd.

Eglurodd y **Gweinidog** y bydd y cynigion ar addysg perthynas iach yn y Papur Gwyn yn ffurfio rhan o adolygiad Llywodraeth Cymru o'r cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu a phwysleisiodd yr angen am athrawon wedi'u hyfforddi'n ddigonol ar gyfer yr agwedd hon ar y cwricwlwm. Nododd y gallai unrhyw Fil yn ymwneud ag addysg yn y dyfodol fod yn gyfrifol am newidiadau deddfwriaethol i'r cwricwlwm.

Nododd fod hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol yn ceisio sicrhau bod materion ar gyfer menywod beichiog yn cael eu canfod yn fwy effeithiol mewn gwasanaethau mamolaeth.

⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion y Cyfarfod Llawn [*Datganiad: Cyflwyno Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)*](#) 1 Gorffennaf 2014 [fel ar 9 Gorffennaf 2014]

Gwnaeth **Peter Black AC**, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol, Treftadaeth, Tai a Chyllid, holi am yr angen ar gyfer Bil, gan ddweud nad oedd yn credu bod unrhyw beth yn y Bil na allai Gweinidogion ei wneud eisoes. Credai hefyd nad yw'r dull a gymerir yn y Bil yn adlewyrchu'r ffaith mai menywod yn bennaf sy'n profi trais ar sail rhywedd a bod angen i hynny gwmpasu ystod llawn gwasanaethau, gan gynnwys addysg. Credai y dylai anffurfio organau cenedlu benywod a thrais yn erbyn plant gael eu cynnwys yn y Bil hefyd ac y dylai wneud darpariaeth ar gyfer rhaglenni i helpu i ail-addysgu'r rhai sy'n cyflawni trais domestig.

Dyweddodd y **Gweinidog** ei bod yn credu bod creu rôl ymgynghori statudol "yn hollol angenrheidiol er mwyn sicrhau perchnogaeth o'r mater ar lefel strategol uchel iawn" yn enwedig o ystyried natur drawsbynciol y maes polisi. Nododd fod anffurfio organau wedi'i gwmpasu gan y Bil ac y byddai'n ddefnyddiol i ganfod plant sy'n cael eu hamlygu i drais domestig.

Mynegodd **Rebecca Evans AC**, Llafur Cymru, ei siom gyda'r diffyg darpariaethau ar gyfer addysg perthynas iach yn y Bil ond croesawodd y posibilrwydd o gael dangosyddion cenedlaethol a gobeithiai y byddant o gymorth i gynnig darlun ehangach o effeithiau aflonyddu a cham-drin rhywiol yn ymwneud â rhywedd. Croesawodd y cynnig i sefydlu swydd ymgynghorydd gwleidyddol a gofynnodd i'r Gweinidog sut fyddai'r swydd honno yn ategu gwaith y cydgysylltydd atal masnachu pobl.

Pwysleisiodd y **Gweinidog** pa mor bwysig yw cael hyfforddiant i'r holl staff sy'n debygol o ddod ar draws cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ym myd addysg. Dywedodd y byddai'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cyfrannu at y nod hwn ac y byddai hefyd yn helpu i sicrhau y byddai gweithwyr ieuchyd proffesiynol yn ymateb yn gyflymach i dystiolaeth o drais rhywiol a cham-drin domestig. Bydd dangosyddion cenedlaethol yn cynnwys mesurau cyffredinol o lwyddiant mewn strategaethau cenedlaethol a lleol.

Roedd **Lindsay Whittle AC**, ar ran Plaid Cymru, yn pryderu ynghylch monitro a phlisma ymateb i gam-drin domestig. Roedd hefyd yn pryderu am amharodrwydd dynion i roi gwybod am drais yn eu herbyn ac am y trais mewn perthnasau lesbiaidd, hoyw a thrawsrywiol. Gofynnodd i'r Gweinidog sut fydd y Bil yn helpu plant i oresgyn y trawma o fod yn dyst i drais domestig. Roedd yn credu bod y Bil yn cynnig cyfle i wahardd curo plant.

Dyweddodd y **Gweinidog** fod y Swyddfa Gartref yn gyfrifol am waith i wella ymateb yr heddlu a chredai y bydd y Bil yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth a newid agweddau.

Tynodd **Julie Morgan AC**, Llafur Cymru, sylw at yr amrywiad yn nifer yr achosion o gam-drin domestig a nodwyd ledled Cymru a'r amrywiad yn y ddarpariaeth o wasanaethau cam-drin domestig a lefelau cyllido'r gwasanaethau hynny.

Dywedodd y **Gweinidog** fod gwaith ar amrywiad mewn gwasanaethau a chyllid yn cael ei wneud y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth.

Roedd **Jenny Rathbone AC**, Llafur Cymru, am wybod sut fyddai'r Bil yn hyrwyddo'r gwaith atal ac, yn benodol, yn helpu i dorri'r cyswllt rhwng y troseddwr a dioddefwyr trais domestig ac yn atal plant troseddwr rhag dod yn droseddwr eu hunain. Roedd yn pryderu sut fyddai'r Bil yn codi ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws yr ystod o asiantaethau cyhoeddus. Roedd anffurfio organau cenhedlu benywod o bryder penodol.

Cadarnhaodd y **Gweinidog** fod anffurfio organau wedi'i gynnwys yn benodol yn y Bil fel ffurf ar drais ar sail rhywedd a thrwy'r ddiffiniad o drais domestig os caiff ei gyflawni gan berson sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr. Byddai'r Bil yn atal ymhellach drwy wella ymateb y sector cyhoeddus, gan gynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth, drwy strategaethau lleol ar y cyd.

Gofynnodd **Joyce Watson AC**, Llafur Cymru, i'r Gweinidog sut y caiff y gwaith o gyflawni'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol ei fonitro. Roedd yn pryderu am y gwaith o reoli datgeliadau mewn ysgolion a rôl meddygon teulu.

Nododd y **Gweinidog** y bydd cyhoeddi strategaethau lleol yn sicrhau tryloywder o ran materion lleol a'r ymatebion iddynt. Bydd y fframwaith hyfforddi cenedlaethol yn darparu'r sgiliau angenrheidiol i'r staff addysg i ddelio â'r datgeliadau a wnaed iddynt.